



## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

11.07.2018

Zip World, Bethesda

### Yn Bresennol:

<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:</b>		
Ian Nellist	(IN)	FSB
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwion Llwyd	(GL)	Dioni Ltd
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:</b>		
Craig ab Iago	(CI)	Dyffryn Nantlle 2020
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
Alun Evans - Cadeirydd	(AE)	FUW/ NFU
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:</b>		
Sian Tomos		(Gisda Cyf)
<b>Cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd:</b>		
Dylan Griffiths		Cyngor Gwynedd - Gwynedd Ddigidol
<b>Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwynedd Wledig:</b>		
Zoe Pritchard	( ZP)	
Rachel Roberts	(RR)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Katie Hughes-Ellis	(KHE)	





## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Pwynt	Manylion	Gweithred
<b>Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol</b>		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan AE	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 10 aelod trwy law RR. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Helen Pye ( Parc Cenedlaethol)</li> <li>• Dr Einir Young - Prifysgol Bangor</li> <li>• Aled Jones-Griffith - Grŵp Llandrillo Menai</li> <li>• Delyth Vaughan Rowlands - Mantell Gwynedd ( Mamolaeth)</li> <li>• Menna Jones (Antur Waunfawr)</li> <li>• OG Thomas ( Un Llais Cymru)</li> <li>• Ceri Cunnington – Cwmni Bro Ffestiniog</li> <li>• Gwennan Williams ( Bwyty Lleu)</li> <li>• Annwen Jones</li> <li>• Cyng. Ioan Thomas</li> </ul>	
3.	<b><u>Datganiadau o Ddiddordeb</u></b> Cwblhaodd Dafydd Watts ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer cais Capel Carmel. Roedd Craig ab Iago yn datgan diddordeb ar y cais Amgueddfa Dros Dro gan ei fod yn Gadeirydd y Rhaglen Cyfuno Gwynedd. Roedd Menter Môn a Chyngor Gwynedd yn datgan diddordeb ar eu ceisiadau RCDF.	
4.	<b><u>Cofnodion Cyfarfod 25/04/2018</u></b> <u>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.</u> <u>Cynigiwyd gan : Dafydd Watts</u> <u>Eiliwyd gan : Arwel Jones</u> Diolchodd (AE) I Menna Jones am gadeirio yn ei absenoldeb yn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion.	
5.	<b><u>Adroddiad Ariannol</u></b> Rhoddodd ZP gyflwyniad ar yr adroddiad ariannol gan gyflwyno'r tabl cyllid. Eglurodd nad oes wedi bod gormod o bwysau i gael arian cyfatebol gyda phrosiectau yn y gorffennol oherwydd ein bod yn derbyn cefnogaeth ariannol gan yr NDA. Mae'r cyfnod hwnnw rŵan yn dod i ben ac mi fydd angen I Fenter Môn wneud cais arall i'r NDA am y tair blynedd nesaf. Yr oedd DG yn gwneud cyflwyniad mewn cynhadledd i'r NDA yr un diwrnod a'r cyfarfod LAG. Maent wedi cyfrannu £295K yn dair blynedd diwethaf ac	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>mi fyddan yn gwneud cais am yr un swm ar gyfer y tair olaf. Os yn llwyddiannus, bydd prosiectau'r dyfodol yn gallu bod mwy heriol. Mae 53 o brosiectau wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn a 6 o rhai cydweithredol gyda siroedd eraill.</p> <p>Eglurodd ZP bod gwerth ceisiadau'r diwrnod yn £49,751.50, mae hyn yn cynnwys rhai sydd angen eu diwygio.</p>	
6.	<p><b><u>Gwfan AGW / Toolkits</u></b></p> <p>Eglurodd ZP bod rhai o'r toolkits wedi'u cwblhau sef 'WI-FI Cymunedol' a Chyllid Torfol. Bydd toolkit Awyr Dywyll yn barod o fewn y mis nesaf ynghyd â 7 arall. Bydd y wybodaeth yma ar wefan AGW ac mi fydd yn cael eu gyrru i aelodau LAG.</p> <p>Mae gwefan AGW gyda tab newydd ers y LAG dwythaf sef tab 'gwybodaeth', dyma le fydd papurau AGW I gyd.</p> <p>Gofynnodd AJ faint sydd yn ymweld â'r wefan, dywedodd AW bod y wybodaeth ar gael ac fe fydd yr ystadegaeth yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd ZP y buasem hefyd yn darparu ffigyrau/analytics ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol hefyd erbyn n y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.</p> <p>Ychwanegodd ZP ein bod yn cynnwys cod 'QR' ar y 10 toolkits cyntaf. Byddem yn mesur os yw hyn yn gweithio dros gyfnod ac os yw'n werth parhau gyda gweddill y toolkits yn y dyfodol.</p> <p><b><u>Diweddariad - prosiectau cyfredol a sylwadau:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><u>Rhodd Eryri –</u></b></li> </ul> <p>Rhodd RH ddiweddariad ar gynllun Rhodd Eryri. Atgoffodd bod yr adroddiad gwerthusiad wedi'i gylchredeg ers mis Ebrill ac o'r opsiynau a nodwyd ynddo mai trosglwyddo I Grŵp Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd fyddai'r opsiwn orau o rhan dyfodol y cynllun. Mae'r grŵp yma yn cael ei weinyddu gan wasanaeth Twristiaeth a Marchnata Cyngor Gwynedd ac yn cael ei reoli gan gynrycholwyr y sector dwristiaeth. Eglurodd RH y gobeithir y byddai cyflog ar gael am dair blynedd ar gyfer swyddog i redeg y cynllun yn rhan amser ond na fydd hyn yn cael ei weithredu am rhai misoedd eto nes y bydd yn cael ei gymeradwyo gan y cabinet.</p> <p>Mae Rhodd Eryri wedi cael ei ddewis gan Bennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru I roi ger blaen 12 aelod o Bwyllgor Ewropeaidd &amp; Economaidd yn y Sioe Frenhinol fel esiampl dda o gynllun LEADER drwy Gymru.</p> <p><b>*Dangoswyd ffilm ddiweddaraf Rhodd Eryri*</b></p> <p><b><u>Cynllun Dementia (Frongoch).</u></b></p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

Bydd yr offer yn cael ei osod yn Frongoch ar Orffennaf 19eg. Sustem 'pager' fydd o gyda'r person sydd yn byw gyda dementia yn gwisgo breichled tra maen nhw'n ymweld â'r ganolfan arddio. Bydd lansiad yn cael ei drefnu diwedd mis Medi, manylion i'w ddilyn.

### Ysgol Drôns

Eglurodd KHE mai bwriad y cynllun yw hyfforddi pobl ifanc ar sut i ddefnyddio drôns. Mae ysgolion ardal Merionnydd ( lle fydd y cynllun yn cymryd lle) wedi derbyn cyflwyniad am y prosiect ac mi fydd y sesiynau yn cymryd lle ym mis Med. Mae briff wedi mynd llan ar gyfer yr hyfforddiant oherwydd nad oes neb lleol yn gallu darparu hyn. Mae KHE yn disgwyl i'r tendr ddod yn nôl yn fuan. Mae briff hefyd wedi mynd allan i gael drôns addas ar gyfer y sesiynau, disgwylir gwybodaeth bellach am hyn yn fuan hefyd. Cadarnhaodd KHE fod y sesiynau am ddim.

### Bws Wennol Hoppa Harlech –

Eglurodd RR mai prosiect yw hwn sydd yn ymateb i'r problem o sut i gludo pobl o waelod Harlech i Harlech Uchaf, ac yn lleihau problemau parcio yn y dref ac felly yn peilota bws gwennol dros gyfnod yr haf. Bydd y gwasanaeth yn rhedeg o Orffennaf 21ain hyd at Fedi 2il. Bydd y bws yn mynd pob 30 munud o dri lleoliad. Mae posteri wedi'u cylchredeg mewn mannau twristiaeth yn yr ardal yn egluro bod y gwasanaeth ar gael am 6 wythnos. Cost bydd £1 i oedolion a 50c ar gyfer plant.

Lloyds Coaches fydd yn rhedeg y gwasanaeth ac fe fydd yr arian a gasglwyd yn cael ei dynnu oddi ar eu hanfoneb nhw ar ddiwedd y cyfnod. Eglurodd RR os bydd digon o arian yn cael ei gasglu, yna fe fydd yn cael ei roi tuag at y gwasanaeth flwyddyn nesaf. Bydd 10% o incwm y maes parcio hefyd yn mynd yn nôl i'r gymuned.

Mae busnesau'r dref wedi bod yn gefnogol i'r cynllun drwy gynnig 10% i ffwrdd unrhyw wariant dros £10 i rheini sydd yn defnyddio'r bws. Mae'r castell hefyd wedi bod yn gefnogol drwy roi £1 i ffwrdd tocyn wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd RR fod marchnata'r cynllun yn holl bwysig.





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

7.	<p><b><u>Digwyddiad LINC 2018 - LEADER Ewrop</u></b></p> <p>Fuodd RR a RH ymweld â'r Ffindir ym mis Mehefin ynghyd â swyddogion Môn. Eglurodd RR mai digwyddiad LEADER Ewropeaidd ydyw sydd yn cael ei gynnal gan wahanol LAG pob blwyddyn. Yr oedd 350 o aelodau yno ar draws Ewrop ac mi oedd yn gyfle gwych i rannu profiadau a phrosiectau. Dywedodd RR ei bod wedi mynychu gweithdy digidol a'i bod yn amlwg fod Gwynedd ar flaen y gad gyda phrosiectau digidol ac yr oedd yn amlwg nad oedd arbenigedd yn y maes yn lleol yn y gwledydd eraill chwaith. Yr oedd gan amryw o wledydd ddiddordeb mawr yn y cynllun B4RN a fydd yn cael ei weithredu yn Llanymawddwy ac yn awyddus i weithredu hwnnw yn lleol.</p> <p>Eglurodd RH eu bod wedi mynychu 'co-operation corner', lle oedd cyfle i rannu gwybodaeth. Yr oedd rhai gwledydd wedi cynnig prosiectau i gydweithredu gyda gwledydd eraill. Cyflwynodd RH gynllun Rhodd Eryri ac yr oedd yna ddiddordeb mawr gan y Ffindir i wneud rhywbeth tebyg. Eglurodd RH bod Jackie Lewis (swyddog LEADER Môn) wedi gwneud llawer iawn o waith yn y mis diwethaf gyda chysylltiadau o Awstria a Lithuania.</p> <p>Eglurwyd bod allbwn o gynnal un prosiect cydweithredol traws wladol yn LEADER, ac mae'r prosiectau traws gwladol yn gallu cymryd amser felly mae angen ceisio cael y berthynas a chael prosiect cyn gynted â phosib cyn diwedd y rhaglen.</p>	
8.	<p><b><u>Ffurflen Diwygio Prosiect</u></b></p> <p><b>1. Amser i Fentro</b></p> <p>Diwygio costau gwreiddiol gan fod y cais ar gyfer 5 person. Ond yn anffodus dim ond 3 person oedd y rhan o'r prosiect. Felly costau wedi gostwng o £29,000 i £22,460.</p> <p><b>Aelodau yn cymeradwyo'r gostwng mewn costau.</b></p> <p><b>1. Lora-WAN</b></p> <p>Gofynnwyd am £5,000 o arian ychwanegol i'r prosiect er mwyn cynnal digwyddiad cloi ym mis Medi. Bydd hyn yn ariannu cost y digwyddiad arddangos i gynnwys cyfieithu costau cyfieithu'r 'dashboard', gwaith ffilmio, marchnata, lleoliad a llety ar gyfer staff Thingitude. Felly cyfanswm costau prosiect yn codi o £29,000 i £34,000.</p> <p><b>Aelodau yn cymeradwyo'r £5,000 ychwanegol.</b></p> <p><b>2. Twizy/ Ceir Trydan</b></p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>Gofynnwyd am £8,301.50 yn fwy o bres yn ogystal â newid pres o' dan yr eitemau oedd wedi nodi yn y cais gwreiddiol. Ar ôl i'r cais cael ei gymeradwyo, penderfynwyd 'Eco Travel Network' bod nhw ddim yn fodlon cael y ceir ar ein rhan ac yn llesu nhw i Arloesi, felly roedd rhaid mynd allan i gael dyfynbrisiau eto. Rydym nawr wedi cael pris gan gwmni Co-Wheels.</p> <p>Felly mae cyfanswm cost y prosiect yn codi o £47,300 i £55,601.50 Roedd yr aelodau yn bryderus iawn o hyn, ac yn nodi fod £55,000 yn swm mawr iawn o arian i wneud hyn. Cwestiynwyd os oedd cymunedau wedi datgan diddordeb fod ganddyn nhw ddiddordeb cael Twizy. Cadarnhaodd KHE ei bod wedi mynd allan i Alwad Agored ac mae 2 cymuned wedi datgan diddordeb. Nododd IN bydd rhaid sicrhau fod 3 cymuned yn barod i'w defnyddio cyn prynu'r Twizy. Cadarnhaodd KHE na fydd Arloesi yn prynu'r Twizy nes bod 3 cymuned wedi cyflwyno cais.</p> <p>Noddodd AJ byddai ddefnyddiol gweld nhw cael eu defnyddio gan fusnesau lleol e.e. adeiladwyr wrth adeiladu stadau newydd. Perchnogion Tai Haf I hysbysu bod ganddynt bwynt ceir trydan.</p> <p><b>Aelodau yn cymeradwyo'r £8,301.50 yn ychwanegol.</b></p>	
9.	<p><b><u>Diwygio Cronfa Cymunedau Creadigol</u></b></p> <p>Eglurodd ZP bydd rhaid newid teitl y gronfa gan ei fod yn gamarweiniol. Mae cymunedau yn meddwl mai Cronfa 'creadigol/celfyddydol' ydyw, ac o ganlyniad rydym yn derbyn ceisiadau am brosiectau celfyddydol/creadigol.</p> <p>Yn rownd 2 aethom allan i alwad agored a derbyniwyd 3 cais, ond roedd un yn anghymwys.</p> <p>Mae £50,240 wedi clustnodi felly mae £49,760.00 ar ôl yn y gronfa.</p> <p><b><u>Diwygio Cais Cronfa Cymunedau Creadigol</u></b></p> <p>Roedd Dafydd Watts yn datgan diddordeb am y cais Capel Carmel, felly aeth DW allan o'r ystafell tra roedd y diwygiad yn cael ei drafod.</p> <p><b>1. Tafarn yr Heliwr</b></p> <p>Eglurodd ZP eu bod wedi derbyn dyfynbris i gynhyrchu cynllun busnes yn y Gymraeg - a oedd yn bodloni eu hanghenion. Fodd bynnag, ers hynny mae'r pwyllgor wedi bod mewn trafodaeth efo buddsoddwyr preifat, ac er wyn gallu ymgeisio am eu buddsoddiad hwy, mae angen derbyn y cynllun busnes yn y Saesneg. Nid oes gan y pwyllgor y sgiliau digonol yn fewnol i gyfieithu dogfen gymhleth i'r Saesneg. Felly, gofynnir am gyfraniad ychwanegol gan y gronfa tuag at gyfieithu 8,581 gair @£50 fesul 1000 o</p>	







## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>eiriau - oddeutu £500. Felly roedd y gost y prosiect yn codi o £4,800 i £5,300.</p> <p><b>Aelodau yn cymeradwyo'r £500 ychwanegol.</b></p> <p><b>2. Capel Carmel</b></p> <p>Eglurodd ZP eu bod wedi derbyn 2 gynnis tendr o fewn yr amserlen a chryn wahaniaeth ym mhrys y tendrau. Er bod profiad helaeth gan y cwmni a gyflwynodd y cynnis tendr uchaf, yn sgil cyllideb gyfyngedig aethpwyd am y tender isaf a defnyddiwyd hyn gyda'r cais i Gronfa Cymunedau Creadigol.</p> <p>Yn y cyfamser, cafwyd cyfarfod gyda Swyddogion Cronfa Dreftadaeth y Loteri a sylwadwyd o'u profiad blaenorol hwy, nad oedd cymaint o brofiad herio Cynllun Busnes gan y cwmni a gyflwynodd y pris isaf, ac awgrymwyd i ail gysylltu gyda'r ail gwmni.</p> <p>Cysylltwyd â'r ail gwmni a nodwyd y gallai deilliannau fod yn gliriach o ran y gyllideb a thasgau. Ategwyd hefyd mai'r Pwyllgor / Cyd-gysylltydd gyda chefnogaeth y Swyddog Adfywio fyddai yn ysgrifennu geiriad y cynllun busnes ac mai'r brif flaenoriaeth y darn o waith, oedd paratoi'r rhagolygon ariannol i sicrhau cynaladwyedd y cynllun ac adnabod risgiau. Cytunodd y cwmni i ail edrych ar yr adnoddau amser ac anfon pris diwygiedig. Penderfynwyd i dderbyn y pris diwygiedig yma ac mae hyn wedi'i drafod gyda aelodau yr is grŵp. Gan fod y swm yn is na £5k, un dyfynbris sydd yn angenrheidiol yn ôl rheolau caffael UE. Yn sgil hynny, gofynnir am gyfraniad o £1,678.04 gan y gronfa tuag at waith goblygiadau ariannol. Felly mae cost y prosiect yn codi o £1,804.60 i £3,482.64.</p> <p><b>Aelodau yn cymeradwyo'r £1,678.04 ychwanegol.</b></p>	
10.	<p><b>RCDF</b></p> <p>Eglurwyd fod y 5 Datgan o ddiddordeb isod wedi cyflwyno i RCDF. Roedd RR eisoes wedi gyrru e-bost i'r aelodau nodi unrhyw sylwadau ac i nodi eu bod yn cefnogi'r ceisiadau. Roedd Menter Môn yn datgan diddordeb ar gais 2- Llanymawddwy Broadband ac roedd DRhG yn datgan diddordeb ar ran Cyngor Gwynedd am gais 4+5.</p> <p><b>1. Hyb Cynaladwyedd / Sustainable Hub</b> (Partneriaeth Ogwen)  <b>2. Croesor Biomass Boiler</b> (Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis)  <b>3. Llanymawddwy Broadband</b> (Menter Môn)  <b>4. Rural Connectivity in North Wales (Gwynedd)</b> (Cyngor Gwynedd)</p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p><b>5. Smart Rural Gwynedd (internet of things infrastructure) (Cyngor Gwynedd)</b></p> <p><b>Aelodau i gyd yn gefnogol o'r 5 Datgan o Ddiddordeb gan eu bod yn ffitio gyda SDLI Gwynedd.</b></p>	
11.	<b>Ceisiadau i'w cymeradwyo</b>	
11.1	<p><b>Ceisiadau i'w cymeradwyo</b></p> <p><b>1. <u>AGW.085 Presgripsiwm Cymdeithasol</u></b></p> <p>Eglurodd ZP mai prosiect peilot byr (oddeutu 10 wythnos) yw hwn mewn partneriaeth ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Cwm Idwal sy'n annog grwpiau ac unigolion sydd â heriau iechyd corfforol, iechyd meddyliol, yn ogystal â heriau cymdeithasol, i ddod i ymarfer corff yng Nghwm Idwal (Gwarchodfa Natur).</p> <p>Noddodd IN fod 3 grŵp 'Ramblers' yng Ngwynedd a dyllir cysylltu gyda nhw i fod yn rhan o hwn, hefyd maent yn cynnig 3 taith gerdded am ddim. Cododd DI bryder am le oedd yr atgyfeiriadau yn dod. Eglurodd ZP y byddwn yn cydweithio gyda GIG, Grŵp Hafal (Tîm Psychosis), Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Cyfuno Gwynedd (yn benodol teuluoedd ifanc).</p> <p>Noddodd CI fod yn bwysig i gael y data i ddysgu os ydi hyn yn gweithio. Eglurodd ZP byddwn yn sicrhau fod y data yn cael ei gasglu gan mai'r elfen bwysig o dreialu ydi casglu data a dysgu ohono. Rydym wedi trafod gyda Mantell Gwynedd ar ffyrdd o fedru mesur 'cynnydd' unigolion wrth fynychu'r sesiynau, ac wedi derbyn model o holiaduron posib i'w ddefnyddio. Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn o'r prosiect.</p> <p><b>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £7,500.</b></p>	
11.2	<p><b>3. <u>AGW.083 Amgueddfa Dros -Dro</u></b></p> <p>Eglurodd ZP fod cais Amgueddfa Dros Dro ar y cyd gyda AHNE ddim yn mynd ymlaen gan na chafodd y cais ei gymeradwyo gan banel ANHE. Felly mae'r cais yna nawr wedi cau, ac yr arian yn mynd yn nol mewn i'r potyn.</p> <p>Ond eglurodd ZP fod cyfle wedi codi gyda rhaglen arall i gynnal prosiect tebyg, mae hwn yn brosiect mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith Rhaglen 'Cyfuno Gwynedd' i gydlynu amgueddfeydd dros dro mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Gwynedd. Mi fydd y prosiect yn canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau mewn sefydliadau gwahanol ar draws Gwynedd. Gall hwn fod mewn archfarchnad, gorsaf trên /bws, neuadd gymunedol</p>	







## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>neu ar Lan y Môr. Bydd y prosiect hwn yn rhoi cyfle i bobl leol gwerthfawrogi eitemau o arwyddocâd hanesyddol, a bydd yn dod â phobl at ei gilydd mewn sgwrs trwy storïau, celf a gwrthrychau. Gan fod nifer o gasgliadau yn cael ei arddangos am gyfnod byr, nid yw trigolion Gwynedd yn derbyn cyfle i ddarganfod ei hanes a ddeall ei threftadaeth leol.</p> <p>Roedd AJ yn awyddus i ni gyd-weithio gydag Eco Amgueddfa ar y prosiect #LARGO18 i gydweithio i gynnal yr amgueddfa ar yr un dyddiadau a'u gweithgareddau nhw. Mae'r dyddiadau ar wefan Eco Amgueddfa.</p> <p><b>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £13,200.</b></p>	
11.3	<p><b>4. AGW.084 Clwb Buddsoddi Lleol</b></p> <p>Eglurodd ZP bod y prosiect wedi deillio o'r is-grŵp, ac mai'r bwriad yw peilota Cronfa leol ar gyfer Gwynedd gyfan.</p> <p>Yn dilyn llwyddiant dau o brosiectau cychwynnol Arloesi Gwynedd Wledig, sef "Be Nesa Llŷn" a "Rhodd Eryri", mae wedi profi bod model buddsoddiad mewnol lleol yn gallu gweithio. Ar ôl nifer o drafodaethau, mae hi'n amlwg o fewn yr is-grŵp bod awydd i dreialu'r model hwn ar raddfa fwy. Y bwriad yw sefydlu cronfa buddsoddiadau ar gyfer Gwynedd gyfan.</p> <p>Codwyd sawl pryder gan yr aelodau am y cais yma. Codwyd pryder gan nad yw'n glir beth yw nod y gronfa. A'i nod y gronfa yw er bydd cymdeithasol neu economaidd/masnachol. Codwyd pryder gan AJ os yw'r gronfa yn rhodd neu yn fenthyciad, mae'r rhain yn ddau beth hollol wahanol. Nododd DI fod rhaid i'r gronfa fod yn syml er mwyn cael pobl i fuddsoddi. Nododd GLL y byddai benthyciad masnachol yn fwy cynaliadwy na rhodd gymdeithasol. Nododd DW bosib byddai ceisiadau busnes yn fwy focused. Roedd DRhG yn nodi fod lle i gronfa rhodd a benthyciad yng Ngwynedd.</p> <p>Holodd AJ beth yw diweddariad Be Nesa Llŷn? Eglurodd ZP fod Arloesi mewn trafodaethau gyda Cynefin i gymryd y prosiect ymlaen a'i gynnal o Congl Meinciau ym Motwnnog.</p> <p><b>Gohiriwyd y cais gan fod angen cynllun mwy clir a penodol o beth fyddai nod y gronfa. Cytunwyd y bydd rhaid ei ail-drafod yn yr is-grŵp nesaf.</b></p>	
	<b>Materion Cyffredinol</b>	
12.1	<p>Nododd ZP fod ein swyddog prosiect Katie Hughes-Ellis yn gadael Menter Môn i ddatblygu busnes ei hun. Mae Katie wedi bod gyda'r cwmni ers 3</p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	blynedd, a diolchodd iddi am ei holl waith ar y rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig dros y 3 mlynedd diwethaf a dymuno pob lwc iddi.	
12.2	<b>Arddangosfa Rhithiwr Dementia</b> Croesawodd RH Meilys o Gyngor Gwynedd sydd wedi dod draw i ddangos sut mae'r rhithiwr Dementia Cymraeg yn gweithio ac i'r aelodau cael ei brofi. Rhoddodd Meilys diweddariad o'r prosiect hyd yma, a diolch i'r aelodau am eu cefnogaeth.	
<b>Dyddiad Nesaf</b>		
13.	Cadarnhodd AE dyddiad nesaf LAG sef, 17eg o Hydref yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd.	

